



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Llandudoch  
Llandudoch  
Aberteifi  
Sir Benfro  
SA43 3ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llandudoch

Lleolir Ysgol Gynradd Llandudoch ym mhentref Llandudoch, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 110 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oed cymysg. Mae 11 disgybl meithrin rhan amser yn mynychu'r ysgol yn y boreau'n unig.

Dros dreigl tair blynedd, tua 9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 11% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 23% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd effeithiol ac maent yn gwneud cynnydd cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhifedd yn fwriadus ar draws y cwricwlwm ac maent yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gweithredol a llwyddiannus. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ddysgwyr hyderus, sy'n ymfalchïo yn eu hysgol a'u profiadau dyddiol. Maent yn awyddus i fentro ar brofiadau newydd ar ddechrau gwersi ac maent yn cynnal eu brwdfrydedd trwy gydol y sesiynau.

Mae'r addysgu a'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu yn gynhwysfawr. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n gydwybodol ac addfwyn am eu disgyblion. Maent yn cynnig arweiniad a chymorth diwyd iddynt, sydd yn cefnogi ymddiriedaeth y disgyblion yn eu hysgol fel cymuned ymroddgar.

Mae gweledigaeth glir y pennaeth, ar gyfer datblygu'r ysgol, yn llwyddiannus. Gyda chydweithrediad y llywodraethwyr cefnogol, mae hi'n gweithredu blaenoriaethau dilys a synhwyrol. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n drwyadl ar gynnal darpariaeth effeithiol i wella deilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

| Maes arolygu                | Barn |
|-----------------------------|------|
| Safonau                     | Da   |
| Lles ac agweddau at ddysgu  | Da   |
| Addysgu a phrofiadau dysgu  | Da   |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da   |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth  | Da   |

## **Argymhellion**

- A1 Sicrhau bod ymatebion yr athrawon i waith disgyblion yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn eu dysgu
- A2 Darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u dysgu

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sydd yn is na'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n dda. Maent yn cyfathrebu yn y Saesneg yn huawdl, ac yn datblygu medrau rhifedd a TGCh pwrpasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar a gwrando effeithiol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu. Maent yn hyderus ar lafar, yn sgwrsio'n aeddfed ac yn gwrando'n ddeallus ar gyfraniadau eraill. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn trafod yn ddeallus pa gynhwysion sydd eu hangen arnynt i greu bisgedi Santes Dwynwen. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, wrth iddynt ymhelaethu am nodweddion caregog a nwyon planedau penodol, a braw'r teithwyr wrth i'r Titanic suddo.

Mae medrau darllen cadarn yn cael eu defnyddio gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod ddiddorol o destunau yn glir a dealladwy. Maent yn ymateb i gynnwys eu llyfrau yn dda ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn bwyllog, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig bwriadus. Maent yn disgrifio digwyddiadau mewn stori yn ystyrllon ac yn esbonio'n gelfydd y rhesymau dros weithredoedd penodol, fel helyntion arth wrth iddo baratoi am gêm rygbi. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn ynganu'n glir wrth ddarllen yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n ystyrllon ar y we, i ganfod gwybodaeth a chreu ffeil ffeithiau am artistiaid byd enwog, fel Salvador Dali. O ganlyniad, maent yn defnyddio'u medrau darllen uwch yn gynhyrchiol i gywain gwybodaeth benodol o wahanol ffynonellau defnyddiol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o gyd-destunau a ffurfiau ysgrifennu yn ddeallus i gyfleu eu barnau personol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau diddorol yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys disgrifio teimladau unigolyn sydd ar goll ar y traeth a defnyddio ansoddeiriau effeithiol i bortreadu cymeriadau o storïau antur. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ystyrllon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrsasau. Er enghraifft, maent yn cynnwys adroddiadau ffeithiol ar greaduriaid chwedlonol, rhagfynegiadau ar ba ddefnydd sy'n cadw paned o goffi yn dwym ac erthyglau papur newydd ar laniadau'r lleud.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol, mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn effeithiol. Enghraifft dda yw'r ffordd y mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn llenwi jariau ag arian i brynu nwyddau yn y caffi chwarae rôl. Mae gan rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gref o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Maent yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff gwasgariad i gymharu hyd traed a rhychwant dwylo yn fwriadus. Yn ogystal, maent yn mesur a phwyso cynhwysion fel ffrwythau ac iogwrt i

greu smwddis yn gywir, a defnyddio cyfesurynnau mewn pedwar pedrant i ffurfio coeden Nadolig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd ymestynnol yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Maent yn defnyddio cyfarpar technolegol yn dda i greu animeiddiaid am anifeiliaid yr Antarctig ac maent yn cyfeirio dyfeisiau electronig yn effeithiol ar grid i ddarganfod trysor Barti Ddu. Mae'r rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio cronfeydd data yn fwriadus i gasglu gwybodaeth am dymheredd yn ystod y dydd, a'r ffyrdd o drafnidiaeth sy'n bodoli i gyrraedd yr ysgol. Maent yn cwestiynu a threfnu'r wybodaeth yn dda i ddarganfod patrymau penodol yn y data. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth dda o fanteision TGCh i gefnogi eu dysgu, a phwysigrwydd eu diogelwch ar-lein.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn clodfori eu hysgol ac yn datgan eu balchder am y gymuned ofalgar sydd yno. O ganlyniad, maent yn teimlo'n hapus a diogel yng nghwmni'r staff a'u cyfoedion. Mae gan ddisgyblion lefel uchel o ymddiriedaeth yn y staff ac maent yn gwybod y byddant yn gwneud eu gorau drostynt yn rheolaidd. Mae bron pob un yn cyfleu teimladau teyrngar am rolau'r staff yn eu bywydau. Er enghraifft, maent yn cyd-ganu anthem yr ysgol gyda'r oedolion, gydag angerdd a didwylledd amlwg, sy'n cyfleu pwysigrwydd yr ysgol i'w hardal, eu gwlad a'r byd ehangach. Yn ogystal, mae bron pob disgybl yn mwynhau gweithgareddau dyddiol yr ysgol, ac yn deall beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd yn eu gwaith. Maent yn cydweithio am gyfnodau estynedig ac yn dangos parodrwydd brwd wrth ddechrau tasgau. Maent yn cynnig cymorth i'w gilydd, pan fo'r angen, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwbl annibynnol yn ystod tasgau, oherwydd gor gyfeiriad gan oedolion ar adegau.

Mae medrau cymdeithasol a bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach, a sut i gadw'n heini. Mae'r rhan fwyaf yn medru datblygu a chynnal trafodaethau am nifer o bynciau cyfoes ynglŷn â'u bwyd, fel trafod nodweddion bwydlen llysieuwr a phescetarian. Maent yn ystyried pwysigrwydd edrych ar ôl eu cyrff yn dda. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy wersi addysg gorfforol, sesiynau llythrennedd actif a gweithgareddau allgyrsiol amrywiol, fel y clwb pêl-rwyd.

Mae disgyblion o bob oedran yn cydweithio'n hwylus mewn grwpiau, wrth iddynt symud o amgylch yr ysgol a chwarae ar y buarth. Maent yn gwrtais a'i gilydd ac yn wyladwrus o anghenion ddisgyblion eraill, wrth iddynt ddefnyddio neuadd yr ysgol i fwyta a chyd-addoli. Maent yn gyfeillgar â'i gilydd a gyda ymwelwyr ac yn cyddynnu'n rhwydd ag eraill yn yr ysgol. Enghraifft gadarn o hyn yw'r 'partneriaid chwarae', ble mae'r disgyblion hyn yn cefnogi'r disgyblion iau yn ystod amseroedd egwyl. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd

dinasyddiaeth foesol a chydardoldeb yn ein cymdeithas. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o fywydau difreintiedig plant yn slymiau Dar es Salaam. Mae hyn yn hybu gwerthoedd moesol y disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu parodrwydd i drin pawb gyda pharch a chwarteisi.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau cyfranogi yng ngwaith yr ysgol ar amrywiaeth o faterion. Maent yn barod iawn i gysylltu â'r staff gyda'u syniadau, ac maent yn mynegi eu barnau am yr ysgol yn dda trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae holl gynghorau'r ysgol, fel y criw digidol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cwblhau eu gwaith yn gydwybodol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth bwrpasol o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn trafod y rhain yn hyderus, gan roi rhesymau aeddfed dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae eu menter busnes, sef y troli ffrwythau, yn ariannu gwelliannau yn amgylchedd yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol. Mae cyfleoedd rheolaidd iddynt gyfrannu mewn gweithgareddau cymunedol, fel casglu sbwriel o gwmpas y pentref a'r traeth, sy'n cael dylanwad cryf ar eu medrau cymdeithasol. Er nad yw presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg dros amser, mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yn brydlon yn y boreau.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn darparu cwricwlwm sydd yn ennyn diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau gwerthfawr sydd yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd eang ac ysgogol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru a'r ardal leol, fel olrhain hanes chwedlau lleol, fel 'Peregrin a'r Fôr Forwyn.' Mae hyn yn arfer dda, sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn sylweddol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl, sydd yn hybu dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol. Enghreifftiau nodweddiadol yw gwaith y disgyblion gydag arlunwyr lleol ar brosiectau sy'n ymwneud â'u cymuned wledig ac arfordirol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag ailstrwythuro'r cynllunio ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn dechrau ymateb i'r cwricwlwm newydd i Gymru yn fwriadus trwy dechnegau 'Dysgu Ditectif' yr ysgol. O ganlyniad, mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, fel trafod eu syniadau yn agored cyn cychwyn â'r themâu newydd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu annibynnol ar lawr y dosbarth, heb gyfeiriad oedolyn.

Mae'r holl oedolion yn modelu iaith raenus. Maent yn annog a chefnogi'r disgyblion yn fedrus i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrair, sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth gyfathrebu a thrafod eu gwaith yn huawdl. Llwydda'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi'n bwrpasol ac mae'r disgyblion yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol i ddeall sut i lwyddo mewn tasgau. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn, ac mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r ardal allanol, fel y gegin fwd a llwybrau wedi eu gwneud o frigau, i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn bwrpasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o wersi yn darparu cyfleoedd diddorol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau. Mae cyflwyniadau byr a gweithgareddau ymarferol yn cynnal brwdfrydedd y disgyblion yn ddeallus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau'n aeddfed â'u tasgau. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth drafod trychineb y Titanic ar ffurf bwletin newyddion a chreu graffiau llinell i nodi data mewn ymchwiliadau gwyddonol, sy'n ymwneud â ffrithiant. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd difyr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm wrth sgriptio, golygu a chreu blog am effaith yr hinsawdd ar fynyddoedd iâ.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu yn fwriadus trwy gynnig ymyraethau amserol ac ysgogol. Mae'r berthynas waith gynhaliol, sydd yn amlwg ymhob dosbarth, yn meithrin parch a chwarteisi ac yn creu naws ddysgu gynhyrchiol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, ac o ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r athrawon yn asesu gwaith a chyfraniadau'r disgyblion yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn defnyddio gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn synhwyrol. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn gryno a defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrion ar eu gwaith. O ganlyniad, nid oes ganddynt afael cadarn ar yr hyn sydd angen iddynt ei wella yn eu gwaith a'r camau nesaf yn eu dysgu.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a threfnus ac mae pwyslais amlwg yn bodoli ar hybu gwerthoedd cytûn. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. O ganlyniad, rhoddir ffocws clir ar sicrhau bod pob un yn gwneud y cystal ag y gallant yn ystod eu gweithgareddau.

Mae partneriaethau cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni ac mae polisi drws agored yr ysgol yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhyngddynt. Mae gwybodaeth barod ar gael i rieni am fywyd yr ysgol, gan gynnwys gwefan a chyfryngau cymdeithasol defnyddiol. Effaith hyn yw bod y staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth holl gymuned yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cynnig nosweithiau hyfforddiant defnyddiol i rieni, sy'n canolbwyntio ar drafod dulliau addysgu'r ysgol. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhieni a'r gofalwyr i ddeall sut i gefnogi eu plant gyda'u dysgu.



Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth asesu yn ddeallus i adnabod anghenion y disgyblion, ac i ddarparu ymyraethau pwrpasol ar eu cyfer. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n ddiwyd, dan arweiniad yr athrawon, i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth bwriadus. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Mae gan bob disgybl, sydd ag anghenion addysgol arbennig, gynllun dysgu unigol pwrpasol, sy'n cynnwys targedau meintiol a champau gweithredu doeth. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu'n ofalus gan athrawon, ac yn cael eu trafod yn drwyadl gyda'r rhieni. Yn ogystal, mae'r staff yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn fedrus, trwy raglenni cymorth pwrpasol, sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu'n gynhyrchiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd amrediad o asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r ymwelydd iechyd, i gefnogi cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at greu ethos gofalgarg a theuluol yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn cystadlu mewn eisteddfodau, yn perfformio mewn corau ac yn astudio bywydau Cymry enwog, fel T Llew Jones. Mae'r ysgol yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o hanes, diwylliant a thraddodiadau cyfoethog eu pentref. Rhoddir cyfleoedd mentrus iddynt astudio themâu penodol, sy'n cynnwys cynnal wythnosau o weithgareddau ar y traeth cyfagos. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr yn bwrpasol, i siarad am deithiau i wledydd tramor, ac maent yn cymharu Cymru gyda Llydaw yn ddeallus. Mae'r profiadau hyn yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u gwlad a'u treftadaeth a chyfraniadau Cymru i'r byd yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwledydd eraill, fel astudio diwylliant, bywyd a chelfyddyd Tanzania yn synhwyrol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg yn effeithiol, trwy'r celfyddydau creadigol a mentrau masnachol. O ganlyniad, maent yn creu a gwerthu bagiau a chynnyrch amrywiol yn y neuadd leol.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau cymdeithasol, ysbrydol a moesol y disgyblion, trwy drefnu cyfleoedd cadarn iddynt fyfyrion mewn sesiynau cyd-addoli ac amseroedd cylch. Mae'r adegau hyn yn eu hannog i feddwl am faterion sy'n ardaro ar eu bywydau ac i ystyried gofidion eraill yn ein cymdeithas.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bywydau iachus. Mae cyfleoedd buddiol iddynt ymarfer eu cyrff yn ystod gwersi a gemau buarth, dan arweiniad arbenigwyr allanol. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn hybu'r awch a'r brwdfrydedd ymysg y disgyblion i gadw'n heini.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn gweithredu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ddatblygu medrau a lles disgyblion, mewn awyrgylch hapus, gynhaliol Gymreig. Mae'r ysgol yn cynnig dechreuad cadarn i'r disgyblion, sy'n caniatáu iddynt ehangu eu gorwelion a'u dyheadau yn llwyddiannus. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n dda gan staff gweithgar a chadarn. Mae blaenoriaethau strategol yr ysgol yn effeithiol, a chanddynt ffocws clir a phenodol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Mae'r weledigaeth hon yn arwain at ethos gofalgarg, diogel a chynhwysol ar draws yr ysgol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn ddeallus. Maent yn darparu cwricwlwm difyr, ac mae'r themâu diddorol a chyfoes yn cyfoethogi'r dysgu yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn cymhell disgyblion i ystyried hanes eu milltir sgwâr â balchder, trwy astudio hanes yr abaty a'r traeth cyfagos. Yn ogystal, mae'r arweinwyr yn canolbwyntio'n frwd ar ddefnydd rheolaidd y disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r pwyslais hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion, wrth iddynt gyfoethogi eu medrau ieithyddol yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr a chyfredol yn eu lle. Mae'r arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd i ymdrin â chynlluniau ac arferion gwella ansawdd yn effeithiol. Maent yn cynnwys craffu ar waith a theithiau dysgu i nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn rheolaidd, gan ddilyn amserlen fonitro gywrain. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn adeiladu darlun dilys, gonest a chyfredol o'r ysgol.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a gwella safonau disgyblion. Mae'r arweinwyr yn dosrannu cyfrifoldebau i dargedu blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn bwrpasol. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r meysydd sydd angen eu gwella. Nodwedd gref o'r weithdrefn hon yw argymhellion y cyngor ysgol ynglŷn â sut i greu gwelliannau i amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, gweithiodd y cyngor gyda gof i greu giât symbylus i ddatlu can pumdeg mlwyddiant yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gosod heriau allweddol i'r ysgol fel ffrindiau beirniadol. Maent yn cynnig arweiniad cadarn, yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn trafod blaenoriaethau presennol a thymor hir yr ysgol yn hyderus. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am berfformiad yr ysgol ac maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau gwelliannau yn safonau a lles disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn defnyddio'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn ddeallus ac yn cydweithio â'r pennaeth i ddarparu hyfforddiant cyhwysfawr i'r staff. O ganlyniad, maent yn cefnogi'r dewis o gyrsiau a mewnbwn arbenigol gan asiantaethau allanol yn fwriadus i gefnogi a gwella arbenigedd a medrau'r staff. Er enghraifft, mae'r staff yn targedu effeithiolrwydd strategaethau lles ar fodlonrwydd disgyblion i ddygymod â'u hemosiynau ar hyn o bryd, a gweithgareddau gwyddonol i wella'u medrau arbrosi.

Mae'r arweinwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a thir yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau yn ardal allanol y cyfnod sylfaen, sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i gyfoethogi'r cwricwlwm a gwella deilliannau'r disgyblion yn cael eu defnyddio'n grefftus. Enghraifft llwyddiannus o hyn yw'r defnydd effeithiol a wneir o grantiau celfyddydol i gefnogi medrau cerdd a mynegiannol y disgyblion. Mae'r arweinwyr yn gwario gwarged yr ysgol yn effeithiol i gynnal staff ychwanegol i gefnogi yn y dosbarthiadau. Yn ogystal, gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r gwariant yn cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau'r cynlluniau datblygu.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

|  |   |
|--|---|
| <b>Rhagorol</b>                              | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig                              |
| <b>Da</b>                                    | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau                  |
| <b>Digonol ac angen gwelliant</b>            | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| <b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b> | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau                                    |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2020